

## NODIADAU CYFARWYDDYD

Bydd y grant hwn yn darparu cymorth ariannol i'r microfusnesau hynny (sy'n cyflogi 1-9 o weithwyr) sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

### Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – DIBEN Y GRONFA

Diben y Gronfa yw cefnogi microfusnesau gyda chymorth llif arian brys i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd yr argyfwng Covid-19. Mae'r gronfa'n ceisio ategu mesurau ymateb Covid-19 eraill i gefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

### BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu chi i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, gan gynnwys mynediad at adnoddau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi ar gynllun gweithredu a diagnostig busnes, gall ein cynghorwyr ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a chael mynediad at gymorth arall y gallech chi elwa arno.

I ddysgu mwy, ewch i [www.busnescymru.llyw.cymru](http://www.busnescymru.llyw.cymru)

### Contract Economaidd Llywodraeth Cymru

Mae Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru yn sbarduno newid mewn polisi a darpariaeth i greu economi o dwf cynhwysol sy'n hybu ein cyfoeth a'n llesiant ac yn lleihau anghydraddoldeb. Mae'r Contract Economaidd yn fframio perthynas newydd gyda busnes yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddiad cyhoeddus gyda diben cymdeithasol i helpu busnesau i ymateb i heriau'r dyfodol.

### Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – PWY ALL WNEUD CAIS?

Mae grant o **hyd at £10,000** ar gael i gynorthwyo microfusnesau sydd wedi cael eu heffeithio gan yr argyfwng Covid-19.

**Dim ond Unig Fasnachwyr / Partneriaethau neu Gwmnïau cyfyngedig sy'n gallu bodloni'r meini prawf canlynol sy'n gymwys i hawlio'r grant:**

### Unig Fasnachwyr / Partneriaethau – Meini Prawf Cymhwysedd

- Yn cyflogi rhwng 1 a 9 o weithwyr trwy gynllun Talu Wrth Ennill ar 1 Mawrth 2020 (**yn ogystal â pherchennog y busnes**). Noder bod yn rhaid i'r 1 cyflogai fod yn gyfwerth ag amser llawn h.y. 30 awr. Gall hyn gynnwys staff rhan-amser ond rhaid iddo fod yn hafal i o leiaf 1 gweithiwr amser llawn
- Naill ai â phencadlys yng Nghymru neu gyda chyfeiriad gweithredu ac yn cyflogi pobl yng Nghymru
- Mae angen i fusnesau fod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (ar 1 Mawrth 2020) neu os yw'r sector wedi'i eithrio rhag TAW, dylai eu trosiant fod yn fwy na £85k. Os yw'r busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, rhaid i'r trosiant allu cefnogi perchennog y busnes ynghyd ag 1 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn a chostau rhedeg y busnes. Gellir gweld manylion eithriadau rhag TAW yn:

**<https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption>**

- Wedi profi gostyngiad o fwy na >40% mewn trosiant o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19 (ers 1 Mawrth 2020 – o'i gymharu â rhagolygon gwariant)
- Rhaid i fusnesau a gefnogir anelu i gynnal cyflogaeth am 12 mis
- Dim ond un cais i bob busnes
- Ceisiadau i'w cyflwyno gan berchennog y busnes ac **nid gan asiantiaid** yn gweithredu ar eu rhan
- Bydd angen i fusnesau ddarparu
  - Manylion y gostyngiad mewn trosiant o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19 – o 1 Mawrth 2020
  - Tystiolaeth o'r cyfeiriad busnes trwy ddarparu cofrestrriad TAW o 1 Mawrth 2020.
- **Os ydych chi'n gymwys i dderbyn neu wedi hawlio un o'r canlynol, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd – cam 2.**
  - Grant Ardrethi Busnes gan eich Awdurdod Lleol (grant Ardrethi Busnes Annomestig)
  - Cynllun Cymhorthdal Incwm i Bobl Hunangyflogedig gan CThEM
  - Y Gronfa Cadernid Economaidd – cam 1
  - CGGC – Cronfa Covid

**Cwmni Cyfyngedig – Meini Prawf Cymhwysedd**

- Rydych chi'n gwmni cyfyngedig ar 1 Mawrth 2020 ac yn gorfod bodloni 2 o'r 3 maen prawf canlynol:
  1. **Yn cyflogi trwy gynllun Talu Wrth Ennill ar 1 Mawrth 2020 – Noder:**
    - *Rhaid i gyflogai fod yn gyfwerth ag amser llawn h.y. 30 awr.* Gall hyn gynnwys staff rhan-amser ond rhaid iddynt fod yn hafal i o leiaf 1 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn
    - *Gall cyflogeion gynnwys y Cyfarwyddwr/Perchennog os ydynt yn gyflogai'r cwmni wedi'i ddynodi gan y strwythur cynllun Talu Wrth Ennill (nid difidend)*
  2. **Cofrestredig ar gyfer TAW o 1 Mawrth 2020 neu'r Sector wedi'i eithrio rhag TAW.**
    - Os yw'r sector wedi'i eithrio rhag TAW, dylai eu trosiant fod yn fwy na £50k.
    - Gellir gweld manylion eithriadau rhag TAW yn:  
**<https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption>**
  3. **Trosiant blynyddol yn fwy na £50k.**
    - ✓ Naill ai â phencadlys yng Nghymru neu gyda chyfeiriad gweithredu ac yn cyflogi pobl yng Nghymru
    - ✓ Wedi profi gostyngiad o fwy na >40% mewn trosiant o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19 (ers 1 Mawrth 2020 – o'i gymharu â rhagolygon gwariant)
    - ✓ Rhaid i fusnesau a gefnogir geisio cynnal swyddi am 12 mis
    - ✓ Dim ond un cais i bob busnes
    - ✓ Ceisiadau i'w cyflwyno gan berchennog y busnes ac **nid gan asiantiaid** yn gweithredu ar eu rhan.
    - ✓ Bydd angen i fusnesau ddarparu manylion y gostyngiad mewn trosiant o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19 – o 1 Mawrth 2020

- ✓ **Os ydych chi'n gymwys i dderbyn neu wedi hawlio un o'r canlynol, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd – cam 2.**
  - Grant Ardrethi Busnes gan eich Awdurdod Lleol (grant Ardrethi Busnes Annomestig)
  - Cynllun Cymhorthdal Incwm i Bobl Hunangyflogedig gan CThEM
  - Y Gronfa Cadernid Economaidd – cam 1
  - CGGC – Cronfa Covid

### **Nodiadau Eraill – Meini Prawf Cymhwysedd**

- Mae mentrau cymdeithasol ac elusennau <https://www.gov.uk/find-charity-information> yn gymwys, fodd bynnag rhaid bodloni'r meini prawf ar gyfer Unig Fasnachwyr uchod
- **Nid yw** perchnogion ail gartrefi gyda chytundebau tenantiaeth tymor byr neu dymor hir yn gymwys ar gyfer y grant hwn

### **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – AM FAINT ALLWCH CHI YMGEISIO?**

Mae grant o **hyd at** £10,000 ar gael fesul busnes, i gefnogi gyda chymorth llif arian brys i gynorthwyo busnesau i aros yn solfent trwy'r cyfnod o darfu ar fasnachu.

Mae angen i fusnesau gadarnhau y bydd hyfywedd y fenter dan fygythiad heb gymorth y grant, ac amlinellu pam.

Ystyrir pob cais ar sail unigol ac mae taliad y grant hwn yn ôl disgrisiwn absoliwt Llywodraeth Cymru. **Nid oes proses apelio.**

### **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – SUT I WNEUD CAIS**

Dim ond trwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein y gall busnesau wneud cais am y grant. <https://gwirwycronfeydd.businesswales.gov.wales/cy>

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd (Microfusnesau) ar agor i geisiadau o 29 Mehefin 2020 am hyd at 12 mis, gyda chyfnodau adolygu wedi'u cynnwys ar ôl 3, 6 a 9 mis.

Mae disgrisiwn absoliwt gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyd a thelerau'r gronfa.

**Gwrthodir** pob cais a gyflwynir sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir.

### **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – CANLLAWIAU I GWBLHAU'R FFURFLEN**

#### **Adran 1 – Gwybodaeth Amdanoch Chi**

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi'r 'ymgeisydd'.

#### **Adran 2 – Gwybodaeth Am Eich Busnes**

Rhowch fanylion am eich busnes.

Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir. **Ni chaiff unrhyw gais sy'n cynnwys data anghywir ei brosesu a gwrthodir eich cais.**

## **Busnesau mewn sectorau wedi'u heithrio**

Os yw eich busnes mewn sector sydd wedi'i eithrio rhag TAW, teipiwch GB123456789 yn y blwch TAW. Bydd mewnbynnu unrhyw god gwahanol yn arwain at wrthod eich cais.

### **Gostyngiad mewn Trosiant**

Bydd ceisiadau sy'n manylu gostyngiad mewn trosiant o lai na 40% yn cael eu gwrthod.

### **Adran 3 – Tarfu ar Fusnes**

Mae angen i ni ddeall sut mae'r argyfwng Covid-19 wedi effeithio arnoch chi a'ch busnes. Cwblhewch yr adran hon mor fanwl â phosibl, fel y gallwn ddeall pam bod angen cymorth arnoch chi gan y gronfa hon.

Bydd angen i chi ddangos bod eich busnes wedi dioddef yn sgil tarfu ar fasnachu a'ch bod yn wynebu heriau gweithredol ac ariannol o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

### **Adran 4 – Manylion Banc**

Defnyddir y wybodaeth hon i wneud y taliad Grant i chi.

Sicrhewch eich bod yn darparu'r manylion banc cywir. **Bydd y manylion banc anghywir yn arwain at fethiant i dalu'ch grant a gwrthodir eich cais.**

### **Adran 5 – Datganiad**

Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen y ddogfen gyfarwyddyd hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant.

Os ydych chi'n cytuno i'r telerau ac amodau ac yn gallu cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais yn wir a chywir, yna rhaid i chi dicio'r blwch a chyflwyno'ch cais.

Unwaith y byddwch wedi ei chwblhau, cyflwynwch eich ffurflen gais a dilyn y cyfarwyddiadau ar-lein).

## **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?**

Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais, byddwch yn derbyn cyfeirnod cais. **Gwnewch nodyn o'r cyfeirnod cais ar gyfer unrhyw lythyru yn y dyfodol.**

Bydd penderfyniadau ar geisiadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach.

Rydym yn ceisio prosesu ceisiadau am grant o fewn **30 diwrnod** i dderbyn y cais.

**Os yw ceisiadau'n cael eu cymeradwyo mewn egwyddor**, byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo grant trwy e-bost yn eich hysbysu o ddyfarnu'r grant, a dolen i'r telerau ac amodau i chi gyfeirio atynt.

**Nid yw cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gyfystyr â chadarnhad y byddwch yn derbyn grant, gan y bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach yn cael eu cynnal.**

Mae'n rhaid i chi ymateb i'r cynnig hwn o fewn saith diwrnod gwaith neu bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Bydd angen i chi gynnwys yr holl wybodaeth yr holir amdani yn yr e-bost cymeradwyaeth mewn egwyddor, a bydd methiant i wneud hynny yn arwain at dynnu'r cynnig o grant yn ôl heb rybudd pellach.

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn y llythyr cynnig ar **e-bost** cyn i'r taliad gael ei ryddhau. Y cyfeiriad e-bost yw [Covidmicrofund@gov.wales](mailto:Covidmicrofund@gov.wales)

Telir grantiau yn seiliedig ar y ffaith bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw, gyda gofyniad y byddwn yn gofyn i'r busnes gynhyrchu tystiolaeth o gymhwysedd yn ddiweddarach.

**Os na fydd eich cais yn llwyddiannus**, byddwch yn derbyn e-bost yn nodi'r rheswm/rhesymau dros ei wrthod.

**Nid oes proses apelio.**

### **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – AD-DALU GRANT**

Dylai ymgeiswyr nodi bod Llywodraeth Cymru yn gallu gofyn am ad-daliad o'r grant i gyd neu ran ohono os na ddefnyddir y cyllid at y dibenion a nodir yn y ffurflen gais hon neu os y canfyddir bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn anghywir.

Mae'r ymgeisydd yn ymrwmo i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru, a gorfodir y telerau ac amodau trwy wneud cais am dystiolaeth, ar ôl dyfarnu'r grant.

### **Cronfa Cadernid Economaidd (Microfusnes) – MANYLION CYSWLLT**

Rhaid anfon pob ymholiad at [Covidmicrofund@gov.wales](mailto:Covidmicrofund@gov.wales)